**Arbed Dyfodol**

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol**

**Cofnodion 09.10.18**

**Yn bresennol:**

Russell O'Rourke, Heddlu De Cymru
Lawrence Sellek, Heddlu De Cymru
Sadia Ali, EYST
Louise Israel, NSPCC
Jahnine Davis, Canolfan Arbenigedd CSA
Matt Sedgebeer, Canolfan Arbenigedd CSA
Martin Mahoney, Archesgobaeth Gatholig Caerdydd
Sian Thomas - Arweinydd y Tîm Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Emma Denholm-Hall, Heddlu De Cymru
Miriam Merkova, Cymorth i Ferched Cymru
Martine Dolbear, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Boniface Karula, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Eluned Meredith, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Rhiannon Skuse, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Mia Hughes, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Natasha Hood, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Ellis Dalling, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Dan Phillips, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Louise Cook, Darlithydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Nickola Williams, Cymorth i Ferched Cyfannol
Caroline Saunders, Cymorth i Ferched Cyfannol
Sangheet Bullar, Wise Kids
Alice Muroriwabo, Tîm Plant Coll Gwent
Rachel Saunders, Tîm Plant Coll Gwent
Hannah Dicks, Heddlu De Cymru
Cecile Gwilym, NSPCC
Claire Short, Stop it Now! Cymru
David Hopkins, Stop it Now! Cymru
Menna Thomas, Barnardo's Cymru
Jayne Bryant AC, Cadeirydd
Mike Hedges AC
Jane Hutt AC
Lee Waters AC

Croesawodd Jayne Bryant AC bawb, gan agor y cyfarfod. Dywedodd fod rhai grwpiau o blant yn arbennig o agored i niwed o ran cam-drin rhywiol, megis plant anabl, plant LGBT, plant BAME a bechgyn. Yn ôl ymchwil NSPCC o 2014, mae plant a phobl ifanc anabl dair gwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin na phlant nad ydynt yn anabl. Yn anffodus, mae ymchwil hefyd yn dangos bod plant anabl yn llai tebygol o gael yr amddiffyn a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt ar ôl iddynt gael eu cam-drin.

Hefyd, mae llawer iawn na wyddom am Gam-drin Plant yn Rhywiol a rhai grwpiau agored i niwed. Yn ddiweddar, dywedodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol wrthym fod bwlch enfawr o hyd yn yr ymchwil sydd ar gael ar hyn o bryd i effaith ar oroeswyr BME, LGBT ac anabl a gafodd eu cam-drin pan oeddent blant o'u cymharu â'u cymheiriaid.

Dywedodd fod angen i hyn newid ac na allwn barhau i siomi'r plant hynny sydd fwyaf mewn perygl. Croesawodd gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gam-drin plant yn rhywiol a dywedodd y dylai'r cynllun gyflawni ar gyfer pob plentyn.

Yna dywedodd y dylai hyfforddiant i weithwyr proffesiynol rheng flaen hefyd godi ymwybyddiaeth o ran cam-drin plant anos eu cyrraedd, gan herio agweddau a rhagdybiaethau sy'n rhwystro amddiffyn. Dylai'r Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a gyflwynir yn y cwricwlwm newydd o 2022, gynnwys codi ymwybyddiaeth ymysg plant anabl, LGBTQ a BAME o gam-drin a'u gallu i ofyn am help. Dylai hefyd herio stereoteipiau rhywedd fel y gall bechgyn gael mynediad at gymorth os bydd ei angen arnynt. Yn olaf, mae'n parhau i fod yn allweddol i sicrhau bod cefnogaeth therapiwtig iawn ar gael ar yr adeg iawn ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd wedi cael eu cam-drin.

Yna cyflwynodd Jayne Bryant AC y siaradwr cyntaf, Menna Thomas.

**Siaradwr: Menna Thomas, Barnardo’s Cymru**

Dechreuodd Menna Thomas drwy roi hanes y naratif ynghylch cam-drin rhywiol/cam-fanteisio a bechgyn. Dywedodd nad oedd naratif yn wreiddiol ynghylch cam-drin i bobl ifanc. Mae'r gwaith a wnaed gan Barnardo's i ddatblygu'r offeryn SERAF yn rhan bwysig iawn o'r drafodaeth hon ac mae wedi cyfrannu at newid o ran diwylliant ac ieithwedd o ran cydnabod y posibilrwydd y gall bechgyn dioddef cam-fanteisio rhywiol.

Yn 2012-14, cynhaliodd Barnardo's asesiad o'r dystiolaeth ac adolygodd ddata'r gwasanaethau CSE y mae'n eu darparu. Hefyd, gwnaeth waith ansoddol yng Nghymru gyda gweithwyr proffesiynol, bechgyn a dynion ifanc.

Mae Barnardo's bellach wedi cael cyllid gan y Swyddfa Gartref i gynnal gwaith ymchwil Boys2. Mae'r ymchwil yn canolbwyntio ar sut i wella'r ffyrdd o nodi, asesu ac ymyrryd mewn achosion o fechgyn sy'n dioddef o CSE.

*Dyma rai o brif ganfyddiadau'r ymchwil:*

- Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cynyddu'r risg o CSA ar gyfer bechgyn yn ogystal â merched.

- Mae'n anodd nodi llwybrau CSA o ran bechgyn.
- O ran y bobl sy'n meithrin perthynas amhriodol â bechgyn a'u cam-drin, gallai fod yn unrhyw un
- Mae stereoteipiau rhywiol yn chwarae rhan fawr o ran dehongli ymddygiad bechgyn ac mae'r rhain yn eu llesteirio rhag trafod eu profiadau.

*Agweddau a daliadau gweithwyr proffesiynol:*

Gwelir bechgyn yn droseddwyr yn hytrach nac yn ddioddefwyr. Ychydig a wyddys am effaith CSE a CSA ar fechgyn. Yn aml, derbynnir eu hymddygiad ar ei olwg. Mae angen mwy o amser i ymchwilio i achosion sylfaenol yr hyn y gellid efallai ei wfftio fel "ymddygiad heriol". Mae bechgyn hefyd yn fwy tebygol o gael eu nodi fel dioddefwyr os oes ganddynt anabledd dysgu neu eu bod yn iau.

Mae bechgyn yn tueddu i gael eu cyfeirio at wasanaethau cyfiawnder troseddol. Yn aml, mae'n dechrau gyda gweithgaredd troseddol ac fe gânt eu hunain mewn sefyllfa lle mae cydbwysedd grym yn newid a'r risg o CSA yn cynyddu o'r herwydd.

*Pam nad yw bechgyn yn siarad:*

- Euogrwydd, ofn, gofid. Mae bechgyn heterorywiol y mae dynion wedi cam-fanteisio arnynt yn teimlo penbleth mawr, sy'n ei gwneud yn anos iddynt siarad.
- Gall bechgyn hoyw neu ddeurywiol mewn sefyllfaoedd lle y gwahaniaethir yn eu herbyn fod mewn perygl o fynd i berthnasau camfanteisiol. Soniodd Menna Thomas am AGENDA, yr adnodd a ddatblygwyd gan NSPCC, Prifysgol Caerdydd, Cymorth i Ferched Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru, a all fod o gymorth o ran mynd i'r afael â stereoteipiau am berthnasau rhwng pobl o'r un rhyw.
- Mae bechgyn sydd ag anabledd dysgu sy'n amharu ar eu gallu i ddeall mewn mwy o berygl o CSE. Mae angen offer addysg pwrpasol ar gyfer eu haddysgu am berthnasau iach a mwy o amser i sicrhau eu bod wedi deall y cynnwys yn llwyr.
- Wrth drafod CSA, mae cyfrinachedd a lle diogel yn bwysig.

Yna cyflwynodd Jayne Bryant AC y siaradwr nesaf, Louise Israel.

**Louise Israel, Childline, NSPCC**

Dechreuodd Louise Israel trwy esbonio sut mae'r gwasanaeth Childline yn gweithio:

- Mae Childline yn wasanaeth 24 awr cyfrinachol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 19 oed.

- Gallant siarad â chynghorwyr dros y ffôn, trwy sgwrs fyw ar-lein neu drwy e-bost. Mae Childline hefyd yn cynnig llawer o wybodaeth ar ei wefan am amrywiaeth eang o bynciau, sy'n adnodd gwerthfawr iddynt o ran gwybodaeth berthnasol a chywir. Hefyd, mae gan CL offer i'w helpu i feithrin gwydnwch a dod o hyd i ffyrdd o ymdopi neu geisio cymorth

ymarferol gan eraill.  Gallant hefyd geisio cefnogaeth gan gyfoedion trwy fyrddau neges gyda chymedrolwr.

- Mae dros 1,400 o gynghorwyr gwirfoddol yn cynnig cyngor i blant, a chefnogir y gwirfoddolwyr hyn gan oruchwylwyr staff cymwys.  Yn dilyn hyfforddiant trylwyr, bydd pob gwirfoddolwr yn siarad â 180 o blant a phobl ifanc ar gyfartaledd bob blwyddyn.   Fe'u cefnogir bob amser gan oruchwyliwr hyfforddedig sydd wrth law i wneud asesiadau risg a threfnu unrhyw atgyfeiriadau ar gyfer y bobl ifanc fwyaf bregus.

Yna soniodd Louise Israel am lefel uchel y cyfrinachedd a gynigir gan Childline i blant a phobl ifanc. Gall plant a phobl ifanc ddewis aros yn anhysbys os dymunir. Mae Childline yn wasanaeth cyfrinachol i blant a phobl ifanc.  Ni fydd Childline yn torri cyfrinachedd person ifanc sydd wedi datgelu achos o gam-drin oni bai bod y person ifanc am i'r gwasanaeth wneud hynny. Byddant yn gweithio gyda'r person ifanc tuag at gysylltu ag awdurdod statudol, ond y person ifanc sy'n penderfynu a fydd hyn yn digwydd a phryd.

Pum rheswm yn unig fydd yn peri i Childline dorri cyfrinachedd:

- Lle yr asesir bod bywyd y person ifanc yn fantol.
- Lle mae'r person ifanc yn datgelu achos o gam-drin gan rywun mewn awdurdod sydd mewn cysylltiad â phobl ifanc eraill.
- Lle y bydd y camdriniwr yn cysylltu â Childline, gan gynnwys lle mai plentyn yw'r camdriniwr.
- Lle mae oedran neu allu'r plentyn yn dynodi nad oes ganddo'r gallu i wneud penderfyniadau priodol fydd yn sicrhau ei ddiogelwch yn uniongyrchol
- Lle mai oedolyn yw'r sawl sy'n cysylltu.

Gall Childline hefyd wneud atgyfeiriadau ar gais i asiantaethau neu eiriolwyr eraill ar ran y bobl sy'n cysylltu, gan roi llais iddynt os na chânt eu clywed.

Yna dywedodd Louise Israel mai cam-drin plant rhywiol oedd prif ffocws Childline pan ddechreuodd y gwasanaeth. Bellach mae llawer o resymau y bydd plant yn cysylltu â Childline (gweler y tabl isod)

**Y 10 pryder uchaf i blant yng Nghymru* - cyfanswm y cysylltiadau: 8,853**

*lle mae'r lleoliad yn hysbys

| Main Concern | No of sessions | % of total sessions |
|---|---|---|
| Mental / emotional health | 2,163 | 25% |
| Family relationships | 990 | 11% |
| Suicidal thoughts / feelings | 769 | 9% |
| Self-harm | 635 | 7% |
| Sex, relationships, puberty, sexual health | 591 | 7% |
| Friendship issues | 465 | 5% |
| Bullying / cyber bullying | 463 | 5% |
| Problems at school / education | 462 | 5% |
| Sexual abuse and online sexual abuse | 272 | 3% |
| Sexual and gender identity | 222 | 3% |

Mae CSA ar restr y 10 pryder uchaf o hyd.

Yna soniodd Louise Israel am y rhwystrau i blant a phobl ifanc o ran siarad am eu profiadau:

- Yr ofn na fydd neb yn eu credu
- Ofn beth fydd yn digwydd: mae hyn fwy o rwystr byth i blant a phobl ifanc o ddiwylliant gwahanol

Yna cyfeiriodd hi at y risgiau i lawer o bobl ifanc sy'n ymhél â'u rhywioldeb ar-lein.

I gloi, dywedodd fod angen mawr am gefnogaeth. I lawer o bobl ifanc, mae'r gefnogaeth yn absennol.

Yna cafwyd ymddiheuriadau gan Jayne Bryant gan fod cloch y Cyfarfod Llawn wedi canu a bod rhaid iddi adael y cyfarfod. David Hopkins o Stop it Now! Cymru'r a oedd yn y gadair ar gyfer y sesiwn drafodaeth.

**Sesiwn drafodaeth**

Jahnine Davis o Ganolfan Arbenigedd CSA a agorodd y sesiwn drwy gwestiynu'r term "grwpiau anodd eu cyrraedd". O'i rhan hi, mae’n ymwneud mwy â siâp y gwasanaethau. Nid ydynt yn cynrychioli'r boblogaeth leol.

Trafodwyd sut y gall pobl ifanc adennill lleoedd a sut y gallant gael gafael ar gymorth. Dywedodd Menna Thomas fod angen inni gymryd cyfrifoldeb dros adennill lleoedd. Dywedodd Louise Cook o Brifysgol Metropolitan Caerdydd fod gwasanaethau ieuenctid ar lawr gwlad wedi prinhau a bod llai a llai o bobl ddibynadwy y gall pobl ifanc droi atynt y tu allan i fyd addysg. Mae angen i asiantaethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod cefnogaeth ar gael.

**Cwestiwn 1: Sut yr ydym ni'n herio agweddau a rhagdybiaethau sy'n rhwystro diogelwch?**

Dywedodd Sangheet Bullar o Wise Kids fod hyn yn cael ei gyflawni orau trwy wrando ar blant a phobl ifanc a nodi'r hyn sydd, yn eu barn nhw, yn rhwystrau rhag eu diogelu. Mae'n bwysig ymgysylltu â phobl ifanc drwy gydol y broses, nid ar adeg ymyrraeth yn unig.

Dywedodd Jan Pickles nad yw'r mater yn un newydd ac nad ydym wedi gwneud llawer o gynnydd o ran dod o hyd i atebion.

Dywedodd Jahnine Davis ei bod yn bwysig i weithwyr proffesiynol gwestiynu eu hagweddau eu hunain ac effaith y rhan ar eu perthynas â phobl ifanc.

Gofynnodd Matt Sedgebeer o'r ganolfan arbenigedd CSA sut y gallwn raeadru negeseuon ymchwil yn ôl i'r rheng flaen a sut y gellir sicrhau bod barn pobl ifanc yn hysbys.

Cytunodd Menna Thomas a dywedodd fod angen i ymarferwyr deimlo eu bod wedi'u grymuso a bod ganddynt yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Mae'r SERAF yn ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn. Mae ar ymarferwyr angen offer a mynediad i ymchwil.

Cytunodd pawb fod heriau wrth weithio gyda rhai cymunedau a bod angen inni fod yn weithredol mewn rhai cymunedau.

**Cwestiwn 2: Sut ydym ni'n darparu negeseuon "cadw'n ddiogel" cynhwysol i blant a phobl ifanc?**

Cyfeiriodd Cecile Gwilym at yr angen i bobl ifanc deimlo wedi'u grymuso a gwybod bod ganddynt rywun i siarad ag ef. Amlygodd yr adnodd AGENDA (www.agenda.cymru)

Cafwyd trafodaeth am blant sy'n cael eu haddysgu gartref a'r ffaith nad oedd y rhaglenni cadw'n ddiogel a gyflawnir mewn ysgolion yn eu cyrraedd. Rhaid i'r negeseuon hynny gyrraedd y plant hyn hefyd.

Dywedodd Jan Pickles fod angen deall chwant pobl ifanc am risg.

Dywedodd Louise Cook fod angen gwella sgiliau'r bobl ifanc. Maent yn gyfathrebwyr llawer mwy effeithiol. Cyfeiriwyd at raglenni addysg cyfoedion fel ffordd ddefnyddiol o gyrraedd pobl ifanc.

Trafodwyd yr angen i greu adnoddau cynhwysol, i bobl ifanc fyddar, er enghraifft.

**Cwestiwn 3: Sut ydym ni'n darparu gwasanaethau adfer cynhwysol i blant a phobl ifanc?**

Cafwyd trafodaeth ynghylch chwilfrydedd proffesiynol a'r angen i'r gwasanaeth fod yn gynrychioliadol o'r ardal y mae'n ei gwasanaethu.

Dylai cymhwysedd diwylliannol fod yn rhan o'r hyfforddiant.

Dylai amrywiaeth fod yn rhan o wasanaeth drwyddo draw, nid mewn ffordd adweithiol yn unig.

Daeth David Hopkins â'r cyfarfod i ben am 13.30.